Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

# Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26

Chwefror 2025

## 1. Cyflwyniad

**1.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi safbwyntiau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26.

### Y cefndir

**2.** Ar 10 Rhagfyr 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26, a nododd ei chynlluniau gwario a threthu o ran adnoddau a chyfalaf ar gyfer 2025-26.

**3.** Mae naratif y gyllideb drafft, 'Cyllideb ar gyfer Dyfodol Mwy Disglair' yn datgan y canlynol:

> *"Ni[] fydd y Gyllideb Ddrafft hon ar gyfer 2025-26 yn datrys pob problem nac yn trwsio pob peth – ac ni ddylem ddisgwyl iddi wneud hynny. Mewn llawer o feysydd, mae'r setliadau o ran adnoddau yn dynn, ac mae pwysau'n parhau. Mae'r hinsawdd ariannol gyffredinol yr ydym ni i gyd yn gweithredu ynddi yn heriol o hyd. Ond am y tro cyntaf ers amser hir, mae'r gyllideb hon yn rhoi gobaith inni ar gyfer dyfodol mwy disglair."*[1]

**4.** Mae naratif y Gyllideb ddrafft yn nodi ei bod wedi "cysoni penderfyniadau gwario yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 â phedair blaenoriaeth y Prif Weinidog". Un o bedwar maes blaenoriaeth y Prif Weinidog yw 'Iechyd da' – Cymru Iachach, sy'n canolbwyntio ar y canlynol:

[1] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2025-26: Cyllideb ar gyfer Dyfodol Mwy Disglair'

- Lleihau amseroedd aros y GIG;
- Gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl;
- Gwella mynediad at ofal cymdeithasol;
- Gwella gwasanaethau iechyd menywod.

## Dull o graffu

**5.** Mae ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 wedi'i lywio gan:

- ystyriaeth o themâu trawsbynciol sydd wedi'u hamlinellu yn ein strategaeth ar gyfer y Chweched Senedd.[2]
- tystiolaeth[3] ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ("yr Ysgrifennydd Cabinet"), y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol a'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant[4].
- tystiolaeth lafar[5] gan yr Ysgrifennydd Cabinet a Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol a'u swyddogion. Nid oedd y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant yn gallu mynd i'r sesiwn graffu, ac felly gofynnwyd cwestiynau iddi yn ysgrifenedig.
- ystyriaeth o dystiolaeth a gasglwyd gan y Pwyllgor Cyllid yn ystod ei waith craffu, gan gynnwys ei ymgynghoriad a'i ymgysylltiad ar feysydd blaenoriaeth posibl.[6]

[2] Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Strategaeth y Chweched Senedd, Rhagfyr 2021
[3] Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 16 Ionawr 2025, Papur 1
[4] Nid oedd y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant yn gallu rhoi tystiolaeth lafar oherwydd salwch.
[5] Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, 16 Ionawr 2025
[6] Y Pwyllgor Cyllid, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 [fel ym mis Ionawr 2025]

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n gliriach sut y mae'r cyllid ar gyfer 2025-26 yn cyd-fynd â'r nodau strategol ehangach ar gyfer moderneiddio'r GIG yn y tymor hwy, a'r darpariaethau sydd ar waith ar gyfer uwchraddio prosiectau trawsnewid llwyddiannus. ....................10

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r diweddariad blynyddol ar waith y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd i'r Pwyllgor hwn wythnos cyn y ddadl ar y gyllideb derfynol. ....................11

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru roi dadansoddiad cynhwysfawr o wariant ataliol ar draws holl gyrff y GIG yng Nghymru, ynghyd â thystiolaeth fanwl am sut y mae'r £350 miliwn sydd wedi'i dyrannu yn cael ei defnyddio. ....................16

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi amserlen ar gyfer cwblhau ei gwaith i sefydlu mecanwaith i olrhain a mesur effaith buddsoddiadau ataliol, a dylai ymrwymo i gyhoeddi ei chanfyddiadau yn y maes hwn. ....................16

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o eglurder ynghylch rôl a chwmpas penodol hybiau iechyd menywod, gan gynnwys sut y byddant yn ymdrin ag ystod ehangach o faterion iechyd menywod ac yn mynd i'r afael yn effeithiol â'r bwlch iechyd rhwng y rhywiau. ....................17

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu ymrwymiad cyllid mwy cynhwysfawr, cynaliadwy i ddiwallu anghenion menywod a sicrhau bod y Cynllun Iechyd Menywod yn cyflawni canlyniadau gweladwy, hirdymor, y gellir eu mesur.17

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariadau blynyddol am gynnydd y gwaith i ddarparu gwasanaeth gofal a chymorth cenedlaethol sy'n rhad ac am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen. ....................17

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa gynlluniau wrth gefn sydd ar waith os na fydd byrddau iechyd yn cyrraedd eu targedau ariannol neu os na allant gydbwyso eu cyllidebau y flwyddyn nesaf. ....................20

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal a chyhoeddi adolygiad cynhwysfawr o'r ffactorau sy'n cyfrannu at heriau ariannol byrddau iechyd, gan gynnwys digonolrwydd y fformiwla gyllido, galwadau'r boblogaeth, gwariant gwasanaethau, a materion cynhyrchiant. Yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn, dylai'r Llywodraeth ddatblygu a gweithredu strategaethau wedi'u targedu i fynd i'r

afael â’r heriau hyn a chefnogi byrddau iechyd i gyflawni cynaliadwyedd ariannol. ........ 20

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion am y sgyrsiau â byrddau iechyd ynghylch dadflaenoriaethu gwasanaethau. Dylai hyn gynnwys y meini prawf a ddefnyddir i flaenoriaethu gwasanaethau, yr amserlen ar gyfer gwneud y penderfyniadau hyn yn derfynol, a sut y bydd canlyniadau’r penderfyniadau hyn yn cael eu cyfleu i’r cyhoedd. Dylai diweddariadau rheolaidd gael eu darparu i’r Senedd er mwyn sicrhau tryloywder drwy gydol y broses. ........ 20

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu beth fydd ei hymateb os bernir bod cynlluniau byrddau iechyd yn annigonol ac yn methu â bodloni disgwyliadau ar gyfer lleihau amseroedd aros y GIG a mynd i'r afael â'r ôl-groniad. Dylai hyn gynnwys mesurau wrth gefn clir ar gyfer meysydd neu arbenigeddau lle mae ôl-groniadau yn parhau i fod yn ystyfnig o uchel. At hynny, dylai’r llywodraeth egluro pa mor hyblyg yw’r gyllideb wrth ymateb i gynnydd sydyn yn y galw am wasanaethau neu arbenigeddau penodol, ac a ragwelir unrhyw fuddsoddiadau neu addasiadau yn ystod y flwyddyn i gefnogi’r anghenion hyn. Byddai hyn yn helpu i sicrhau y gellir cyfeirio adnoddau'n gyflym at y meysydd sydd â'r angen mwyaf heb beryglu blaenoriaethau cyffredinol y system iechyd. ........ 23

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu strategaeth glir ar gyfer mynd i’r afael â’r ôl-groniad mewn anghenion cynnal a chadw ystadau a buddsoddi cyfalaf, gan gynnwys sut y mae’n bwriadu cydbwyso’r cyfyngiadau ariannol â’r angen hollbwysig am fuddsoddiadau mewn seilwaith, diagnosteg, a gwasanaethau digidol. Dylai’r llywodraeth hefyd ystyried a oes angen ailddyrannu cyllid cyfalaf o feysydd eraill yng nghyllideb 2025-26 i fynd i’r afael â’r materion dybryd hyn a sicrhau cynhyrchiant gwell a thrawsnewid gwasanaethau yn yr hirdymor. ........ 25

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cynllun manwl ar gyfer cyflymu ei hymdrechion i gyrraedd y lefel ofynnol o soffistigedigrwydd digidol yn y system iechyd. Dylai amlinellu mesurau penodol i reoli risgiau sy’n ymwneud â gorwariant a thanberfformiad ym maes trawsnewid digidol, gan dynnu ar wersi a ddysgwyd o ymdrechion blaenorol. At hynny, dylai’r llywodraeth sicrhau goruchwyliaeth ac atebolrwydd cadarn yn ei mentrau digidol i warantu bod cynnydd yn cael ei wneud yn effeithlon ac yn effeithiol. ........ 26

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro pryd y mae’n disgwyl i’r bensaernïaeth ddigidol genedlaethol gael ei sefydlu’n llawn, a’r amserlen ar gyfer

gweld gwelliannau mesuradwy yn y gallu i ryngweithredu ar draws byrddau iechyd........ 26

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor hwn yn nodi sut y mae wedi blaenoriaethu cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol o fewn y gyllideb ddrafft hon........30

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am yr amserlenni ar gyfer cyhoeddi data am y gweithlu gofal cymdeithasol........30

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad blynyddol i'r Pwyllgor ar y gwaith sy'n cael ei wneud i recriwtio a chadw staff yn y sector gofal cymdeithasol. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am gynnydd o ran gwella mynediad at dâl salwch i weithwyr gofal cymdeithasol........31

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn gyda'i chanfyddiadau, unwaith y bydd yr adolygiad o'r Cyflog Byw Gwirioneddol wedi'i gwblhau........31

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu mwy o gyllid cynaliadwy ar gyfer gofal seibiant, o ystyried y galw a lefel yr angen nas diwallwyd a nodwyd gan ofalwyr. ........35

**Argymhelliad 20.** Dylai Lywodraeth Cymru fynd ati, fel mater o frys i:

- nodi ei asesiad o effaith y newidiadau arfaethedig i gyfraniadau Yswiriant Gwladol ar y rhai sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal a gomisiynir yn gyhoeddus, a'r effaith ddilynol y bydd hyn yn ei chael ar ein sectorau iechyd a gofal cymdeithasol;

- darparu rhagor o wybodaeth am sut y mae'n bwriadu cefnogi'r darparwyr hynny. ........35

# 2. Cyllid ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol

## Trosolwg

**7.** Mae'r Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnwys cyllid refeniw a chyfalaf craidd ar gyfer GIG Cymru a chyllid ar gyfer iechyd y cyhoedd, gofal cymdeithasol a chefnogi plant.

**8.** Ar gyfer 2025-26, cafodd y MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol y cynnydd mwyaf sylweddol; £435 miliwn o gyllid Adnoddau ychwanegol a £175 miliwn o gyllid Cyfalaf ychwanegol i helpu gyda'r gwaith parhaus i leihau amseroedd aros hir y GIG, gwella mynediad at ofal a gwasanaethau ar gyfer iechyd menywod, ac i gefnogi dyfarniadau cyflog y gweithlu. Mae hyn yn adeiladu ar y cyllid ychwanegol y cytunwyd arno eisoes ar gyfer 2024-25.

**9.** Gyda'i gilydd, mae'r cynnydd mewn cyllid dros y ddwy flynedd diwethaf mewn iechyd a gofal cymdeithasol dros £880 miliwn, neu 8%, gyda'r rhan fwyaf o hyn yn cefnogi cyflogau'r gweithlu. Mae papur yr Ysgrifennydd Cabinet yn datgan y canlynol:

> *"Y dull gweithredu ar gyfer y gyllideb hon yw sicrhau bod y GIG yn cael ei gefnogi gyda setliad ar gyfer cyflogau, chwyddiant a thwf nad oes modd ei osgoi yn y galw, sy'n gynaliadwy ac a fydd yn ei alluogi i gyflawni cynlluniau cytbwys yn 2025-26. Mae hyn yn hanfodol er mwyn i'r GIG allu cyflawni gwelliannau mewn perfformiad, canlyniadau a chynlluniau ariannol. Bydd y cynlluniau hyn yn cynnwys y camau sy'n cael eu cymryd i gefnogi elfennau allweddol 'Iechyd da' – Cymru Iachach."*[7]

## Cyllid ar gyfer GIG Cymru

**10.** Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyfran sylweddol o'i chyllideb iechyd yn uniongyrchol i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG i ddiwallu anghenion gofal iechyd penodol eu cymunedau. Er mwyn sicrhau cysondeb â blaenoriaethau iechyd cenedlaethol, mae'r sefydliadau hyn yn cael eu harwain gan Fframwaith Cynllunio GIG Cymru a llythyr Dyraniadau'r Byrddau Iechyd[8], sy'n amlinellu disgwyliadau a chyfeiriadau strategol.

[7] Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 16 Ionawr 2025, Papur 1
[8] Dyraniadau'r Byrddau Iechyd: 2025 i 2026

**11.** Yn unol â Deddf y GIG (Cymru) 2006, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, mae dyletswydd statudol ar Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG i lunio Cynlluniau Tymor Canolig Integredig. Mae'r cynlluniau hyn yn nodi sut y maent yn bwriadu darparu gwasanaethau yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol ac o fewn yr adnoddau a ddyrennir. Mae Gweinidogion Cymru yn adolygu ac yn cymeradwyo'r Cynlluniau hyn, gan sicrhau eu bod yn adlewyrchu amcanion y llywodraeth ac yn diwallu anghenion iechyd y boblogaeth yn effeithiol.

**12.** Disgwylir i fyrddau iechyd roi cyfrif am bwysau'r gaeaf (ffliw, Covid, ac ati) wrth greu eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig. Darperir cymorth cenedlaethol, ac mae byrddau iechyd yn rhannu eu cynlluniau tymhorol â'r llywodraeth, sy'n helpu i reoli'r pwysau hyn.

## Cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol

**13.** Daw bron y cyfan o'r cyllid ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol drwy'r setliad refeniw cyffredinol heb ei neilltuo ac adnoddau awdurdodau lleol eu hunain o'r dreth gyngor ac incwm arall. Dywed Llywodraeth Cymru mai awdurdodau lleol unigol sy'n pennu rheolaeth a chyfeiriad y buddsoddiad hwn (gan gynnwys mewn perthynas â sefydlogi a chefnogi gofal cartref a gofal preswyl).

**14.** Mae'r MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn darparu rhywfaint o gyllid uniongyrchol ar gyfer gofal cymdeithasol drwy gyfres o gronfeydd a grantiau. Mae papur tystiolaeth yr Ysgrifennydd Cabinet yn dweud y bydd dros £141 miliwn yn cael ei ddyrannu i gyflawni nodau polisi gofal cymdeithasol ac ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu "fel dileu elw o fathau penodol o ofal cymdeithasol plant ac adeiladu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mwy integredig, cefnogi gofalwyr a hefyd canolbwyntio'n benodol ar leihau oedi mewn llwybrau gofal". Mae'r papur yn rhoi'r Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol fel enghraifft, y mae'n dweud ei bod yn cael ei defnyddio i gefnogi'r gwaith o ddiwygio, "i wella'r ddarpariaeth ac i wella cynaliadwyedd gwasanaethau ar draws y sector gofal cymdeithasol".[9]

**15.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg wrth y Pwyllgor Cyllid bod y grantiau'n cynnwys £52 miliwn ar gyfer diwygio gofal cymdeithasol; £45 miliwn yng ngrant y gweithlu gofal cymdeithasol; £26 miliwn i Gofal

[9] Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 16 Ionawr 2025, Papur 1

Cymdeithasol Cymru; £10 miliwn yn y grant cynaliadwyedd gwasanaethau cymdeithasol.[10]

**16.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cynnal y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol gwerth £146.2 miliwn, y mae'n dweud ei bod yn helpu iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector i gydweithio i ddatblygu modelau gofal integredig.

**17.** Y tu allan i'r MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, mae gofal cymdeithasol yn cael ei gefnogi'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw. Yn 2025-26, bydd y Grant Cynnal Refeniw yn y MEG Llywodraeth Leol yn cynyddu £235 miliwn "i adlewyrchu'r pwysau ychwanegol ar awdurdodau lleol". Mae papur tystiolaeth yr Ysgrifennydd Cabinet yn nodi bod tua 30% o gyllid awdurdodau lleol yn cael ei wario ar ofal cymdeithasol.

**18.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai yn dweud y bydd cyllid refeniw craidd ar gyfer llywodraeth leol yn 2025-26 yn cynyddu 4.3% ar sail gyfatebol, o'i gymharu â'r flwyddyn bresennol.[11]

## Iechyd a chynaliadwyedd y GIG

**19.** Mae papur yr Ysgrifennydd Cabinet yn tynnu sylw at bwysigrwydd darparu cyllid digonol i'r GIG i dalu costau na ellir eu hosgoi, gan sicrhau y gellir cynnal y gwasanaethau presennol.

**20.** Mae'n mynd ymlaen i ddweud bod y twf na ellir ei osgoi mewn galw a'r pwysau chwyddiant nad oes modd eu hosgoi wedi'u hystyried yn ofalus wrth bennu'r rhagdybiaethau cynllunio ar gyfer GIG Cymru. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym fod tua £150 miliwn yn cael ei ddyrannu o fewn y £435 miliwn ychwanegol i'r MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ddiwallu anghenion sylfaenol.

**21.** Mae cyfran o'r gyllideb £435 miliwn a ddyrannwyd, nas pennwyd ar adeg ein gwaith craffu, hefyd wedi'i neilltuo ar gyfer codiadau cyflog staff ar gyfer y flwyddyn nesaf a thrafodaethau contract ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol, deintyddiaeth a fferylliaeth.

**22.** Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei fod am weld arbedion, arbedion effeithlonrwydd a chynhyrchiant gwell o fewn y GIG ac y bydd byrddau iechyd,

[10] Y Pwyllgor Cyllid, 12 Rhagfyr 2024, paragraff 136
[11] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, paragraff 189

unwaith eto, yn cael targedau arbedion heriol i gyflawni cynlluniau ariannol cytbwys ar gyfer 2025-26.

**23.** Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet i ba raddau y byddai'r £435 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd i'r MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn parhau i fuddsoddi yn y gwaith o gyflawni blaenoriaethau allweddol a thrawsnewid yn yr hirdymor. Eglurodd na fydd y cyfan o'r £435 miliwn yn mynd yn uniongyrchol i'r GIG; bod y ffocws ar gynnal gwasanaethau hanfodol yn gyntaf, yna mynd i'r afael â chyflog a blaenoriaethau ychwanegol y llywodraeth. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym fod tua £65 miliwn wedi'i ddyrannu ar gyfer buddsoddiadau newydd, gan gynnwys y cynnig gofal plant, hyfforddi'r gweithlu, prosiectau digidol, iechyd menywod a chymorth hosbis.

**24.** Ychwanegodd fod cronfa gwerth £30 miliwn wedi'i neilltuo ar gyfer prosiectau digidol i wella cynhyrchiant a pherfformiad, gyda chymorth offer modern ac adnoddau diagnostig:

> *"[…] if you were to look at where the transformation of services is underpinned […] in the budget next year, some of those will be in the capital allocations, as you'd expect them to be. So, in addition to the […] business as usual requirements of the capital budget for digital, which is around kit and ensuring that we have modern equipment for the digital programme that we have, then there is funding for additional diagnostic equipment, which will have a bearing on increasing our productivity."*[12]

## Dyraniadau a chanlyniadau

**25.** Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet sut y byddai canlyniadau Fframwaith Cynllunio GIG Cymru ar gyfer 2025-2028 a Dyraniadau'r Byrddau Iechyd ar gyfer 2025-26 yn cael eu gwerthuso i benderfynu a yw'r blaenoriaethau a bennwyd yn realistig o fewn y cyllid sydd ar gael.

**26.** Dywedodd wrthym fod proses gynllunio, sy'n cyd-fynd â'r broses ddyrannu. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru, drwy'r fframwaith cynllunio a'r llythyr dyrannu, wedi bod yn benodol iawn gyda'r byrddau iechyd ynglŷn â'i disgwyliadau a'r ymyriadau y dylai byrddau iechyd eu gweithredu i gyd-fynd â blaenoriaethau'r

[12] Cofnod y Trafodion, 16 Ionawr 2025, paragraff 19

llywodraeth. Pwysleisiodd y byddai hyn yn galluogi'r llywodraeth i fesur canlyniadau yn erbyn fframwaith disgwyliadau clir iawn.[13]

## Ein barn ni

**27.** Er bod cyllideb eleni yn cyflwyno cefndir llai heriol o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, mae'r GIG yng Nghymru yn wynebu costau cynyddol oherwydd ffactorau megis codiadau cyflog, cost gynyddol meddyginiaethau, chwyddiant, a'r galw cynyddol am wasanaethau. O ganlyniad, bydd angen i fyrddau iechyd gymryd amrywiaeth o gamau i reoli'r pwysau hyn a darparu'r gwasanaethau angenrheidiol ar gyfer 2025-26.

**28.** Ar yr wyneb, ymddengys fod y gyllideb hon yn darparu cynnydd sylweddol i'r MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ond bydd llawer o'r cynnydd hwn yn cael ei amsugno gan y costau cynyddol sy'n gysylltiedig â chwyddiant a'r galw cynyddol yn y GIG, tra bod canlyniadau trafodaethau ynghylch cyflogau a chontractau'n parhau i fod yn ansicr.

**29.** Rydym yn deall y pwysau sylweddol, enbyd y mae'r GIG yn eu hwynebu, gan gynnwys chwyddiant a galw cynyddol, ac mae'n amlwg bod y gyllideb hon yn canolbwyntio'n fawr ar fynd i'r afael â'r heriau hyn. Fodd bynnag, gyda dim ond £65 miliwn allan o'r £435 miliwn wedi'i ddyrannu ar gyfer buddsoddiad newydd, ymddengys yn annhebygol y bydd y gyllideb hon yn sbarduno'r trawsnewid hirdymor sydd ei angen i sicrhau system iechyd gynaliadwy a gwell ar gyfer y dyfodol.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n gliriach sut y mae'r cyllid ar gyfer 2025-26 yn cyd-fynd â'r nodau strategol ehangach ar gyfer moderneiddio'r GIG yn y tymor hwy, a'r darpariaethau sydd ar waith ar gyfer uwchraddio prosiectau trawsnewid llwyddiannus.

**30.** At hynny, nodwn fod y GIG, bob blwyddyn, yn wynebu pwysau sylweddol yn y gaeaf, gyda mwy o alw am wasanaethau a gofal brys. Er gwaethaf ymwybyddiaeth Llywodraeth Cymru o'r heriau lluosflwydd hyn, mae pob gaeaf yn dod ag adroddiadau o'r pwysau lluosflwydd hyn, gydag adroddiadau o ddigwyddiadau critigol yn yr adrannau damweiniau ac achosion brys, ciwiau o ambiwlansys y tu allan i ysbytai ac oedi cyn cael triniaeth. Mae hyn yn codi pryderon ynghylch digonolrwydd gwaith cynllunio i reoli'r pwysau hyn. Mae dull mwy strwythuredig a

[13] Cofnod y Trafodion, 16 Ionawr 2025, paragraff 27

blaengar yn hanfodol er mwyn arfogi'r GIG yn well i ymdrin â galw'r gaeaf ac osgoi argyfyngau cylchol.

**31.** O ystyried bod cyfran sylweddol o'r gyllideb iechyd yn cael ei dyrannu i fyrddau iechyd i ddarparu gwasanaethau yn seiliedig ar flaenoriaethau'r llywodraeth ac anghenion eu poblogaethau lleol, mae'n hanfodol bod proses fwy tryloyw ac atebol ar gyfer monitro penderfyniadau gwario'r byrddau iechyd. Bydd hyn yn sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn unol â blaenoriaethau cyffredinol y llywodraeth.

**32.** Mae hefyd yn siomedig, er eu bod wedi'u derbyn gan Lywodraeth Cymru, nad yw nifer o'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor hwn yn adroddiad cyllideb y llynedd wedi'u gweithredu. Yn benodol, ni chyhoeddwyd llythyr Dyraniadau'r Byrddau Iechyd yr Ysgrifennydd Cabinet, a Fframwaith Cynllunio'r GIG ar gyfer 2025-2028, sy'n llywio Cynlluniau Tymor Canolig Integredig y byrddau iechyd cyn gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft. Roedd rhaid inni ofyn am y dogfennau hyn i ategu ein gwaith craffu. Er y cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Cabinet at y Fframwaith yn aml, gan nodi ei fod wedi'i gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2024, nid oedd ar gael i'r cyhoedd ar ddiwrnod ein sesiwn graffu, a dim ond yn ddiweddar iawn y mae wedi'i gyhoeddi. Mae hyn yn annerbyniol. Wrth ddweud hyn, rydym yn cydnabod cynlluniau'r Ysgrifennydd Cabinet i integreiddio'r canllawiau cynllunio, perfformiad ac ansawdd mewn un dull y flwyddyn nesaf.

**33.** At hynny, gwnaethom ofyn am ddiweddariad blynyddol ar waith y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd, gan gynnwys yr arbedion effeithlonrwydd a weithredwyd a'r cyfleoedd a nodwyd i gefnogi gwelliant ariannol, nad yw wedi'i ddarparu. Hoffem gael y diweddariad blynyddol cyn y ddadl ar y gyllideb derfynol.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r diweddariad blynyddol ar waith y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd i'r Pwyllgor hwn wythnos cyn y ddadl ar y gyllideb derfynol.

# 3. Blaenoriaethau polisi

## Cymru Iachach

**34.** Pan ofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cabinet a oedd darpariaeth wedi'i gwneud ar gyfer cyllid ychwanegol i gefnogi 'Cymru Iachach', dywedodd, gan mai 'Cymru Iachach' yw strategaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gwelliannau i'r system iechyd, y byddai'n dadlau bod y gyllideb gyfan yno i'w chyflawni.

**35.** Gwnaethom hefyd ofyn am y flaenoriaeth a roddwyd i atal, yn enwedig yn sgil adroddiad diweddar Archwilio Cymru ar wasanaethau canser[14], ac a fyddai cynnydd yn nyraniadau'r gyllideb ar gyfer rhaglenni ataliol.

**36.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod rhaglenni ataliol yn berthnasol i fwy nag un clefyd - mae gordewdra yn berthnasol i ganser, ond hefyd i ddiabetes a llawer o gyflyrau eraill. Felly, dadleuodd nad yw'n synhwyrol dadansoddi gwaith ataliol fesul clefyd:

> *"Mae amryw o bethau yn y gyllideb sy'n cynyddu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer gweithgaredd ataliol. [...] £350 miliwn yn y gyllideb wedi cael ei gyfeirio at waith ataliol yn gyffredinol. Fel rydych chi'n gwybod, un o'r heriau, [...] gan ein bod ni'n cyfeirio'n cyllideb tuag at fyrddau iechyd, wrth gwrs, yw bod y gyllideb ataliol yn cael ei gwario ar lawr gwlad o fewn y cyllidebau hynny. Yn y gorffennol, ŷn ni wedi gwneud gweithgaredd er mwyn dod o hyd i faint o fuddsoddiad ataliol sydd yn digwydd ar draws y gwasanaeth—hynny yw, y £350 miliwn-ish, rwy newydd sôn amdano fe [...] ond hefyd yr hyn y mae byrddau iechyd yn ei fuddsoddi."*[15]

**37.** Aeth ymlaen i ddweud bod gwaith yn mynd rhagddo i geisio dod o hyd i fformiwla neu fecanwaith a allai olrhain a mesur effaith buddsoddiadau ataliol ar lawr gwlad. Dywedodd y bydd hyn yn creu darlun cliriach o sut y mae arian yn cael ei ddefnyddio ar gyfer atal, gan y Llywodraeth a'r byrddau iechyd ar lawr gwlad.

## Cynllun iechyd menywod

**38.** Cyhoeddwyd Cynllun Iechyd Menywod GIG Cymru ar gyfer 2025-35 ym mis Rhagfyr 2024. Mae papur yr Ysgrifennydd Cabinet yn nodi'r canlynol:

> *"Mae'r cynllun hwn yn nodi sut bydd y GIG yn cyflawni uchelgeisiau'r Datganiad Ansawdd ar gyfer Iechyd Menywod a Merched ac yn mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau iechyd sy'n wynebu menywod ar hyn o bryd drwy gamau gweithredu clir i wella'r broses o ddarparu gwasanaethau. Bydd £3 miliwn ychwanegol yn cael ei ddyrannu i Iechyd Menywod o fis Ebrill 2025 ymlaen i gyflawni'r camau gweithredu yn y Cynllun, gan*

[14] Archwilio Cymru: Gwasanaethau Canser yng Nghymru, Ionawr 2025
[15] Cofnod y Trafodion, 16 Ionawr 2025, paragraff 40

> *ganolbwyntio'n benodol ar sefydlu canolfannau iechyd braenaru i fenywod ym mhob bwrdd iechyd."*[16]

**39.** Gwnaethom fynegi pryderon ynghylch a fyddai'r £3 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer iechyd menywod yn ddigonol i gyflawni'r camau a nodwyd yn y Cynllun Iechyd Menywod. O ystyried bod hyn yn un o'r prif flaenoriaethau gweinidogol, gwnaethom ofyn a oedd y cyllid hwn yn ddigonol, yn enwedig o ystyried mai dim ond cyfran fach o'r gyllideb iechyd gyffredinol ydyw.

**40.** Mewn ymateb, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym nad hwn oedd yr unig gyllid a gyfeiriwyd at iechyd menywod. Dywedodd y canlynol:

> *"The health boards are tasked with meeting the needs of their local population. In most parts of Wales, the population is 51 per cent plus women, so that is, actually, where the health plan will be delivered in practice. What the £3 million is there to do is, essentially, to fund the establishment of the women's health hubs in each health board area in Wales. That's got a specific cost implication, which is above and beyond the operations of the health service in a customary sense, so that's where that figure comes from."*[17]

## Iechyd meddwl

**41.** Mae papur yr Ysgrifennydd Cabinet yn nodi bod cyllid iechyd meddwl ar gyfer y GIG yn parhau i gael ei glustnodi ac y bydd yn cyfateb i fwy nag £820 miliwn yn 2025-26:

> *"Rydym hefyd wedi parhau i fuddsoddi mewn datblygiadau fel 111 a phwyso 2 ac opsiynau eraill yn lle derbyniadau sy'n elfennau allweddol o'n blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol."*[18]

**42.** Ymhellach, mae'n datgan bod £2.2 miliwn yn cael ei fuddsoddi bob blwyddyn yng Ngweithrediaeth y GIG ar y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl sy'n adnodd pwrpasol i GIG Cymru sbarduno gwelliannau mewn perfformiad, ansawdd a diogelwch:

[16] Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 16 Ionawr 2025, Papur 1
[17] Cofnod y Trafodion, 16 Ionawr 2025, paragraff 324
[18] Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 16 Ionawr 2025, Papur 1

> *"Mae hyn yn rhan o'n rhaglen waith sylweddol i wella iechyd meddwl a llesiant, er enghraifft drwy ein Dull Ysgol Gyfan, NEST/NYTH a'n Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol."*[19]

**43.** Mae hefyd yn tynnu sylw, ar ôl cyhoeddi'r adroddiadau cryno ar iechyd meddwl a llesiant[20] a strategaethau atal hunanladdiad a hunan-niweidio[21], fod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu'r strategaethau a'r cynlluniau cyflawni terfynol.

## Diwygio gofal cymdeithasol

**44.** Ym mis Ionawr 2025, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynlluniau ar gyfer comisiwn newydd ar ddiwygio gofal cymdeithasol[22]. Wedi'i rannu dros ddau gam, bydd y comisiwn yn nodi gweledigaeth ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion, gyda mesurau wedi'u hargymell a map trywydd i'w chyflawni. Ni fydd adroddiad yn cael ei gyflwyno ar yr ail gam, a fydd yn edrych ar dalu am ddiwygiadau gofal, tan 2028, sy'n rhy hwyr yn ôl rhai, o ystyried brys y sefyllfa.[23] Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol am ei barn ar y dull gweithredu yn Lloegr, ac a fyddai'n cael effaith ar yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru o ran diwygio gofal cymdeithasol.

**45.** Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi bod mewn trafodaethau â Gweinidogion Llywodraeth y DU a bod llawer o orgyffwrdd rhwng yr hyn sy'n cael ei gynnig yn Lloegr a gwaith sy'n cael ei wneud eisoes yng Nghymru. Tynnodd sylw at waith y Grŵp Arbenigol a dywedodd ei bod yn dair blynedd ers sefydlu rhaglen weithredu 10 mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer 'cyflenwi gwasanaeth gofal cenedlaethol sy'n rhad ac am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen'. Cyfeiriodd at waith ymchwil y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gomisiynu ar hyn, a dywedodd y disgwylir yr adroddiad cyntaf yn y gwanwyn eleni, a fydd wedyn yn llywio cam nesaf y gwaith.

**46.** Dywedodd fod y rhaglen yn uchelgeisiol iawn[24] ac nad yw Llywodraeth Cymru yn diystyru maint y dasg, ond:

---

[19] Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 16 Ionawr 2025, Papur 1
[20] Strategaeth Ddrafft Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol: Crynodeb o'r ymatebion
[21] Strategaeth Ddrafft Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio: Crynodeb o'r ymatebion
[22] Datganiad i'r wasg: New reforms and independent commission to transform social care (Saesneg yn unig)
[23] King's Fund responds to Department of Health and Social Care announcement of a Commission on Social Care (Saesneg yn unig)
[24] Cofnod y Trafodion, 16 Ionawr 2025, paragraff 140

> *"We know that social care, as it stands at the moment, is really not sustainable. To do nothing with social care is not an option."*[25]

**47.** Aeth ymlaen i ddweud bod y gwaith yn Lloegr wedi'i dargedu'n bennaf at ofal cymdeithasol i oedolion, tra bod y newidiadau sy'n digwydd yng Nghymru ar draws gofal cymdeithasol oedolion a phlant:

> *"And we've made it very clear to the UK Government that anything that they do in this space, if we were to work in co-operation with them and deliver on some of the same areas, that it would have to be across adult and children's social care—we don't separate the two out."*[26]

## Integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol

**48.** Mewn ymateb i gwestiwn am integreiddio cyllid ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet mai'r her amlwg yn y system yw bod cyllidebau ar wahân ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Dywedodd fod angen canfod ffyrdd i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gydweithio fel bod y ffiniau hynny yn fwy mân-dyllog ac yn llai o ffactor:

> *"Clearly, the regional partnership boards have a role to play in that, partly about changing behaviours and encouraging ways of working that are collaborative and joined up as ways of working, but also, significant sums of money are invested through the regional partnership boards. So, the regional integration fund is the largest of those at about just under £150 million, but there are also other funds."*[27]

**49.** Aeth ymlaen i dynnu sylw at y gwaith ar yr her 50 diwrnod, a gefnogwyd gan gyllid gwerth oddeutu £19 miliwn ar gyfer ailalluogi ac i gefnogi meddygon teulu i weithio mewn cartrefi gofal ac ymyriadau eraill:

> *"[ ] we tasked regions with identifying the 25 per cent of patients who'd been waiting longest to be discharged from hospital and who were ready to go, if you like, and develop a plan specifically for those. I'm pleased to say that most of those were, in fact, discharged during the month of December. For*

[25] Cofnod y Trafodion, 16 Ionawr 2025, paragraff 140
[26] Cofnod y Trafodion, 16 Ionawr 2025, paragraff 48
[27] Cofnod y Trafodion, 16 Ionawr 2025, paragraff 57

> *those who haven't, I think it's about 80 per cent of them who now have an agreed discharge plan. So, I think you can absolutely see the benefits of regional joint working and how budgets can be pooled to deliver some of that."*[28]

## Ein barn ni

**50.** Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau'r Pwyllgor dro ar ôl tro, dros nifer o flynyddoedd, fod ganddi gyllid penodol wedi'i glustnodi ar gyfer gwaith ataliol. Mae ei strategaethau, gan gynnwys *Cymru Iachach*, yn pwysleisio pwysigrwydd newid gwariant yn y dyfodol tuag at ddulliau ataliol mwy effeithiol. Fodd bynnag, mae'n siomedig nad yw Llywodraeth Cymru wedi dangos newid sylweddol eto mewn dyraniadau gwariant iechyd tuag at atal, er gwaethaf ei nodi fel blaenoriaeth.

**51.** Mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod £350 miliwn yn cael ei ddyrannu i fentrau atal a bod gan fyrddau iechyd eu cyllidebau ataliol eu hunain. Fodd bynnag, mae'n anodd i'r Pwyllgor gael dealltwriaeth glir o'r gwariant cyffredinol ar atal, gan gynnwys cyfraniad Iechyd Cyhoeddus Cymru at y cyfanswm hwn. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym fod gwaith wedi dechrau i sefydlu mecanwaith i olrhain a mesur effaith buddsoddiadau ataliol. Credwn y dylai nodi amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn a chyhoeddi ei ganfyddiadau.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru roi dadansoddiad cynhwysfawr o wariant ataliol ar draws holl gyrff y GIG yng Nghymru, ynghyd â thystiolaeth fanwl am sut y mae'r £350 miliwn sydd wedi'i dyrannu yn cael ei defnyddio.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi amserlen ar gyfer cwblhau ei gwaith i sefydlu mecanwaith i olrhain a mesur effaith buddsoddiadau ataliol, a dylai ymrwymo i gyhoeddi ei chanfyddiadau yn y maes hwn.

**52.** O ran cyflawni'r Cynllun Iechyd Menywod, o ystyried maint y dasg yn y maes hwn, a nodi hyn fel prif flaenoriaeth i'r Prif Weinidog, rydym yn pryderu nad yw'r £3 miliwn a ddyrannwyd at y diben hwn yn ddigonol. Yn fymryn bach o'r gyllideb iechyd gyffredinol, mae'r cyllid hwn yn brin o'r hyn sydd ei angen i ddiwallu anghenion iechyd menywod ar draws Cymru mewn modd ystyrlon. Er bod sefydlu hybiau iechyd menywod ym mhob bwrdd iechyd yn gam cadarnhaol, ymddengys bod y ffocws yn drwm ar iechyd gynaecolegol, heb roi sylw digonol i faterion ehangach megis cau'r bwlch iechyd rhwng y rhywiau.

---

[28] Cofnod y Trafodion, 16 Ionawr 2025, paragraff 59

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o eglurder ynghylch rôl a chwmpas penodol hybiau iechyd menywod, gan gynnwys sut y byddant yn ymdrin ag ystod ehangach o faterion iechyd menywod ac yn mynd i'r afael yn effeithiol â'r bwlch iechyd rhwng y rhywiau.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu ymrwymiad cyllid mwy cynhwysfawr, cynaliadwy i ddiwallu anghenion menywod a sicrhau bod y Cynllun Iechyd Menywod yn cyflawni canlyniadau gweladwy, hirdymor, y gellir eu mesur.

**53.** O ran iechyd meddwl, rydym yn falch bod cyllid iechyd meddwl wedi'i glustnodi yn parhau i gael ei ddiogelu ac y bu rhywfaint o gynnydd yn y cyllid i roi cyfrif am dwf yn y galw a'r pwysau o ran chwyddiant. Fodd bynnag, nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi datgan na fydd cyllid ychwanegol ar gyfer iechyd meddwl ac y bydd angen arbedion effeithlonrwydd. Nid yw'n glir o hyd pa wasanaethau neu raglenni penodol a gefnogir gan y cyllid £830 miliwn a ddyrannwyd i iechyd meddwl, na sut y mae'r cyllid sydd wedi'i glustnodi yn cael ei ddosbarthu ar draws byrddau iechyd gwahanol. At hynny, rydym yn parhau i bryderu ynghylch yr amseroedd aros hir ar gyfer gwasanaethau niwroddatblygiadol. Fel y cyfryw, mae cyllid iechyd meddwl yn fater y mae'r Pwyllgor yn bwriadu ei ailystyried.

**54.** O ran diwygio gofal cymdeithasol, rydym yn cytuno â'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol bod cyflwr presennol gofal cymdeithasol yn anghynaladwy ac nad yw gwneud dim yn opsiwn. Mae'r rhaglen weithredu 10 mlynedd ar gyfer gwasanaeth gofal a chymorth cenedlaethol sy'n rhad ac am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen yn hynod uchelgeisiol, ac rydym yn pryderu ynghylch gallu Llywodraeth Cymru i ddarparu hyn, yn enwedig gan fod y rhaglen eisoes wedi bod ar waith ers tair blynedd.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariadau blynyddol am gynnydd y gwaith i ddarparu gwasanaeth gofal a chymorth cenedlaethol sy'n rhad ac am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen.

# 4. Sefyllfa ariannol y byrddau iechyd

## Trosolwg

**55.** Fel y trafodwyd, mae papur yr Ysgrifennydd Cabinet yn tynnu sylw at gostau cynyddol gwasanaethau'r GIG, wedi'i sbarduno gan alw cynyddol (e.e. poblogaeth sy'n heneiddio, amodau cymhleth) a chwyddiant. Mae'n egluro bod cyrraedd targedau arbedion a rheoli pwysau costau yn gofyn am waith cynllunio a

gweithredu gofalus, gyda disgwyliadau effeithlonrwydd ac arbedion gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

**56.** Disgwylir i GIG Cymru arbed £220 miliwn yn 2025-26 (2% o gyfanswm ei gyllideb), gan adeiladu ar arbedion £260 miliwn yn 2023-24 a £267 miliwn yn 2024-25. Mae'r targedau hyn yn adlewyrchu heriau rheoli sefydliadau cyhoeddus mawr dan gyfyngiadau ariannol caeth.

**57.** Nod y targed arbedion £220 miliwn ar gyfer 2025-26 yw sicrhau effeithlonrwydd a lleihau gwastraff, gan ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd ddod o hyd i ffyrdd o 'wneud mwy gyda llai', drwy brosesau gwell, lleihau costau gweinyddol, ac aildrafod contractau cyflenwyr. Fodd bynnag, mae sicrhau arbedion wrth drawsnewid gwasanaethau—megis mabwysiadu technolegau newydd neu ailddylunio modelau gofal—yn gofyn am fuddsoddiad ymlaen llaw.

**58.** Mae Conffederasiwn GIG Cymru yn nodi y bydd yn fwy anodd sicrhau rhagor o arbedion heb fuddsoddiadau newydd mewn trawsnewid, her y mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn ei chydnabod yn ei bapur. Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru y canlynol:

> *"NHS organisations are concerned that the focus on financial requirements could drive short-term decision making, shelving efficiency investment such as digital and service reconfiguration, and in some cases false economies."*[29]

**59.** Mae Fframwaith Cynllunio newydd GIG Cymru ar gyfer 2025-2028 yn rhoi mwy o bwyslais ar arbedion, effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Mae'n nodi'r disgwyliad bod yn rhaid i fyrddau iechyd sicrhau sefyllfa ariannol gynaliadwy, gyda phwyslais ar nodi arbedion mewn meysydd nad ydynt yn rhai craidd a gorbenion i ddiogelu gwariant y rheng flaen. Ar yr un pryd, disgwylir mwy o ffocws ar gyflawni blaenoriaethau allweddol.

## Perfformiad ariannol a gwaith cynllunio'r byrddau iechyd

**60.** Mae papur yr Ysgrifennydd Cabinet yn diweddaru perfformiad ariannol cyffredinol y byrddau iechyd, gan gynnwys y sefyllfa ariannol ddiwedd blwyddyn ragamcanol ar gyfer 2024-25. Er gwaethaf cynnydd yn y dyraniad cyllidebol, cyflwynodd 6 o 7 bwrdd iechyd gynlluniau blynyddol â diffyg, gyda'r diffyg rhagamcanol cyfunol yn £220 miliwn. I fynd i'r afael â hyn, dyrannodd Llywodraeth Cymru £104 miliwn i fyrddau iechyd, ac £8 miliwn ychwanegol yn benodol ar gyfer

[29] WGBD25-26(6)69: Conffederasiwn GIG Cymru (Saesneg yn unig)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar gyfer gwaith atgyweirio to yn Ysbyty Tywysoges Cymru, gan ddod â chyfanswm y dyraniad yn ystod y flwyddyn i £112 miliwn.

**61.** At hynny, cadwyd £116 miliwn o fewn cyllideb gyffredinol y GIG er mwyn helpu i wrthbwyso'r diffyg sy'n weddill. Nod Llywodraeth Cymru yw lleihau'r diffyg cyfunol i £85 miliwn, i lawr o £220 miliwn. Mae byrddau iechyd eisoes wedi sicrhau £168 miliwn mewn arbedion effeithlonrwydd, a bwriedir i £52 miliwn arall o arbedion helpu i fantoli'r gyllideb, a rhagwelir y bydd y gyllideb iechyd gyffredinol yn mantoli'r cyfrifon.

**62.** Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet a oedd yn credu y dyrannwyd digon o gyllid yng nghyllideb 2025-26 i sicrhau y gallai byrddau iechyd gyflwyno cyllideb gytbwys y flwyddyn nesaf.

**63.** Dywedodd na fyddai cyllideb gytbwys yn bosibl i rai byrddau iechyd y flwyddyn nesaf, ond y bydd ffigur wedi'i bennu iddynt y bydd angen iddynt ei gyflawni er mwyn cyflawni'r cynlluniau a osodwyd iddynt mewn modd effeithiol. Ac roedd hynny'n amrywio ar draws byrddau iechyd, gan fod proffil ariannol gwahanol gan bob un ohonynt.

**64.** Mewn ymateb i gwestiwn am ddadflaenoriaethu gwasanaethau, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai'n cael sgyrsiau â Chadeiryddion a Phrif Weithredwyr dros y misoedd nesaf ynghylch yr hyn y gallai fod angen ei ddadflaenoriaethu ac, ochr yn ochr â hynny, y byddai hefyd am gael sgwrs am symleiddio'n barhaus y ffordd y gwneir galwadau gan y system.

## Ein barn ni

**65.** Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid sylweddol i fyrddau iechyd, gan gynnwys darparu cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn i fynd i'r afael â phwysau ariannol. Fodd bynnag, mae llawer o fyrddau iechyd wedi wynebu heriau parhaus wrth gyflawni eu dyletswyddau ariannol, gan olygu bod angen rhagor o ymyriad gan y llywodraeth i sefydlogi eu sefyllfa ariannol. Nid yw'r sefyllfa hon yn gynaliadwy. Rhaid i fyrddau iechyd allu gweithredu o fewn y cyllidebau sydd wedi'u dyrannu.

**66.** Rydym yn cydnabod bod darpariaeth cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 yn ceisio mynd i'r afael â diffygion a chefnogi byrddau iechyd i sicrhau cydbwysedd ariannol. Fodd bynnag, rydym yn pryderu o hyd y bydd rhai byrddau iechyd yn parhau i wynebu heriau o ran cynnal cyllidebau cytbwys.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa gynlluniau wrth gefn sydd ar waith os na fydd byrddau iechyd yn cyrraedd eu targedau ariannol neu os na allant gydbwyso eu cyllidebau y flwyddyn nesaf.

**67.** Credwn, fel mater o frys, y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a gweithredu mesurau i leihau'r ddibyniaeth ar gyllid a gedwir yn ganolog i dalu diffygion cylchol, gan alluogi mwy o hyblygrwydd yn y gyllideb iechyd gyffredinol. Er mwyn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd, dylai diweddariadau cynnydd a gwerthusiadau rheolaidd o effeithiolrwydd y mesurau hyn gael eu darparu i'r Senedd.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal a chyhoeddi adolygiad cynhwysfawr o'r ffactorau sy'n cyfrannu at heriau ariannol byrddau iechyd, gan gynnwys digonolrwydd y fformiwla gyllido, galwadau'r boblogaeth, gwariant gwasanaethau, a materion cynhyrchiant. Yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn, dylai'r Llywodraeth ddatblygu a gweithredu strategaethau wedi'u targedu i fynd i'r afael â'r heriau hyn a chefnogi byrddau iechyd i gyflawni cynaliadwyedd ariannol.

**68.** Mae'n rhaid mai blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod byrddau iechyd, sy'n cael dyraniadau cyllid sylweddol, yn gallu cyflawni eu targedau arbedion heb beryglu ansawdd gofal cleifion, yn enwedig mewn meysydd hanfodol megis gwasanaethau canser, iechyd meddwl, a gofal a gynlluniwyd. At hynny, rydym yn deall, er mwyn cydbwyso'r gyllideb, y gall fod angen dadflaenoriaethu gwasanaethau'r GIG.

**69.** Rydym yn deall mai dim ond newydd ddechrau y mae trafodaethau ynghylch hyn. Fodd bynnag, er tryloywder mae'n hanfodol bod y penderfyniadau hyn yn cael eu cyfleu'n glir, a bod y meysydd neu'r gwasanaethau penodol sy'n cael eu hystyried ar gyfer dadflaenoriaethu yn cael eu rhannu â'r cyhoedd. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau nad yw'r broses yn cael effaith anghymesur ar boblogaethau sy'n agored i niwed nac yn arwain at ganlyniadau iechyd gwaeth. Ar ben hynny, mae'n bwysig deall sut y bydd y llywodraeth yn mesur effaith dadflaenoriaethu ar ganlyniadau iechyd a chynaliadwyedd ariannol.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion am y sgyrsiau â byrddau iechyd ynghylch dadflaenoriaethu gwasanaethau. Dylai hyn gynnwys y meini prawf a ddefnyddir i flaenoriaethu gwasanaethau, yr amserlen ar gyfer gwneud y penderfyniadau hyn yn derfynol, a sut y bydd canlyniadau'r penderfyniadau hyn yn cael eu cyfleu i'r cyhoedd. Dylai diweddariadau rheolaidd gael eu darparu i'r Senedd er mwyn sicrhau tryloywder drwy gydol y broses.

# 5. Rhestrau aros y GIG

**70.** Mae lleihau amseroedd aros y GIG yn brif flaenoriaeth i'r Prif Weinidog. Mae buddsoddiad sylweddol yn cael ei wneud mewn gofal wedi'i gynllunio drwy'r Gronfa Adfer Gofal wedi'i Gynllunio, cyllid trawsnewid, a ffynonellau eraill i gyflawni'r nod hwn.

**71.** Darparodd Llywodraeth Cymru £170 miliwn mewn cyllid rheolaidd gan ddechrau yn 2022, a £50 miliwn ychwanegol yn 2024-25, yn benodol i leihau amseroedd aros y GIG. Er gwaethaf hyn, mae amseroedd aros yn parhau i fod yn uchel.

**72.** Mae papur yr Ysgrifennydd Cabinet yn nodi fel a ganlyn:

> *"Ers mis Ebrill 2024, rydym wedi gweld twf yn nifer yr amseroedd aros dros 104 wythnos, er bod yr amseroedd aros hiraf wedi bod yn lleihau'n raddol yn ystod y flwyddyn hon."*[30]

**73.** Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet pam nad oedd y cyllid ychwanegol wedi cyflawni ei effaith fwriadedig o ran lleihau amseroedd aros y GIG, ac a oedd maint yr her wedi'i thanamcangyfrif. Dywedodd wrthym fod y cyllid ychwanegol a oedd ar gael ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf yn cydnabod bod mwy o alw yn dod i mewn i'r system:

> *"[…] so that the trajectory that we were on had plateaued and was going back up because more people were presenting with urgent needs, more people were presenting for cancer treatment, for example, which […] is a challenging set of services that we provide. So that's the rationale for the additional funding going in, and it absolutely has been targeted to those areas, both geographically and areas of treatment, that have been most stubbornly challenging to reduce."*[31]

**74.** Pan ofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cabinet a oedd canlyniadau i fyrddau iechyd sydd ag amseroedd aros hir parhaus, dywedodd ei fod wedi'i gwneud yn glir o'r cychwyn cyntaf, os nad oedd byrddau iechyd yn cyflawni'r cynlluniau yr oeddent wedi ymrwymo iddynt, er mwyn lleihau amseroedd aros, y byddai'r cyllid

[30] Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 16 Ionawr, Papur 1
[31] Cofnod y Trafodion, 16 Ionawr 2025, paragraff 245

ychwanegol yn dod i ben ac yn cael ei ailddyrannu i fyrddau iechyd eraill sydd â'r gallu i gyflawni eu cynlluniau.

**75.** Pan ofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cabinet a oedd yn pryderu ynghylch system iechyd dwy haen, lle mae'r rhai sy'n gallu talu am driniaeth breifat yn osgoi rhestrau aros y GIG mewn rhai arbenigeddau oherwydd na allant aros yn hwy yn gorfforol, dywedodd wrthym, er mai'r peth olaf y byddai ei eisiau yw bod pobl yn teimlo bod yn rhaid iddynt wneud y dewis hwnnw, ei ddealltwriaeth ef oedd bod cyfran y bobl sy'n ariannu eu gofal eu hunain yn llai nag 1 y cant o'r boblogaeth.

**76.** Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet a oedd yn ymwybodol o'r arfer yr oedd bwrdd iechyd Powys yn ei awgrymu o ofyn i ddarparwyr iechyd yn Lloegr oedi cyn trin cleifion o Gymru am resymau ariannol, ac a oedd hynny'n digwydd mewn unrhyw fyrddau iechyd eraill yng Nghymru.

**77.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad oedd yn ymwybodol o hyn ac y byddai'n synnu pe bai'n wir, oherwydd byddai'n tybio lefel sylweddol o gapasiti nas defnyddir yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru:

> *"[...] we don't have significant amounts of activity on the weekends in the health service in Wales. I think there's a legitimate discussion to be had about whether, in the longer term, we need to move towards that. That would create extra capacity. One of the reasons we aren't in the position to do that now is obviously partly to do with funding."*[32]

## Ein barn ni

**78.** Mae'r £50 miliwn a ddyrannwyd yn y flwyddyn ariannol gyfredol wedi'i anelu at leihau amseroedd aros y GIG, gyda ffocws ar fynd i'r afael â'r ôl-groniad. Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i foderneiddio'r system gofal iechyd, gan gynnwys uwchraddio offer diagnostig, sy'n gam hollbwysig i leihau rhestrau aros.

**79.** Mae'r pwyslais ar ddull rhanbarthol o ymdrin â llawdrinaethau dewisol hefyd yn ddatblygiad cadarnhaol, gan ei fod yn anelu at symleiddio'r broses o ddarparu gwasanaethau a lleihau amseroedd aros yn effeithiol. Fodd bynnag, rydym yn ceisio eglurder ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru yn darparu arweinyddiaeth i sicrhau bod gostyngiadau yn yr ôl-groniad yn cael eu dosbarthu'n gyfartal ar draws byrddau iechyd ac arbenigeddau. Er bod awgrym bod meysydd

[32] Cofnod y Trafodion, 16 Ionawr 2025, paragraff 128

blaenoriaeth ar gyfer lleihau rhestrau aros wedi'u targedu y llynedd, nid ydym yn gwbl argyhoeddedig bod hyn wedi'i wireddu'n llawn. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon ac yn strategol, gan osgoi'r risg o wasgaru adnoddau'n rhy denau ar draws meysydd lluosog, a allai wanhau eu heffaith.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu beth fydd ei hymateb os bernir bod cynlluniau byrddau iechyd yn annigonol ac yn methu â bodloni disgwyliadau ar gyfer lleihau amseroedd aros y GIG a mynd i'r afael â'r ôl-groniad. Dylai hyn gynnwys mesurau wrth gefn clir ar gyfer meysydd neu arbenigeddau lle mae ôl-groniadau yn parhau i fod yn ystyfnig o uchel. At hynny, dylai'r llywodraeth egluro pa mor hyblyg yw'r gyllideb wrth ymateb i gynnydd sydyn yn y galw am wasanaethau neu arbenigeddau penodol, ac a ragwelir unrhyw fuddsoddiadau neu addasiadau yn ystod y flwyddyn i gefnogi'r anghenion hyn. Byddai hyn yn helpu i sicrhau y gellir cyfeirio adnoddau'n gyflym at y meysydd sydd â'r angen mwyaf heb beryglu blaenoriaethau cyffredinol y system iechyd.

**80.** Rydym yn pryderu efallai na fydd rhai pobl sy'n talu'n breifat am driniaeth o ganlyniad i amseroedd aros hir y GIG yn gallu fforddio gwneud hynny, ac yn mynd i ddyledion mawr o ganlyniad. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym mai ei ddealltwriaeth ef oedd bod cyfran y bobl sy'n ariannu eu gofal eu hunain yn llai nag 1 y cant o'r boblogaeth. Byddem yn croesawu eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch a oes ganddi ddata ar y caledi ariannol neu'r ddyled a achosir gan y rhai sy'n dewis triniaeth breifat.

# 6. Buddsoddiad cyfalaf

**81.** Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi'n sylweddol yn ystad y GIG, gyda chynnydd o £175 miliwn ar gyfer cyfalaf yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2025-26. Daw hyn â chyfanswm y dyraniad cyfalaf ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol i £614 miliwn ar gyfer 2025-26. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am sut y bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio yn ei Chynllun Cyllid Seilwaith ar gyfer 2025 – 2026[33], a gyhoeddodd ochr yn ochr â'i Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26. Mae'n dangos y bydd £504 miliwn o gyfanswm y dyraniad (£614 miliwn) ar gyfer 'Seilwaith ac Offer GIG Cymru'.

**82.** Mae'r cyllid ychwanegol ar gyfer 2025-26 yn cynnwys £60 miliwn i gefnogi goblygiadau IFRS 16, safon gyfrifyddu sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau'r GIG gynnwys bron pob prydles (megis adeiladau, offer, neu gerbydau) ar eu

[33] Y Cynllun Cyllid Seilwaith 2025 - 2026

mantolenni, gan roi darlun cliriach o ymrwymiadau ariannol, a £115 miliwn ar gyfer cynnal a gwella ystad y GIG, a llywio cynhyrchiant y GIG drwy fuddsoddi mewn offer a thechnoleg ddigidol newydd.

## Ystad y GIG

**83.** Mae ystad y GIG yng Nghymru yn gymharol hen a chydnabu'r Ysgrifennydd Cabinet nad yw'r gyllideb sydd ar gael yn ddigonol i ateb yr holl heriau a gyflwynir. Dywedodd fod rhai datblygiadau cadarnhaol yn y system, gan gynnwys uned newydd yn Llandudno, canolfan ganser Felindre, a chanolfan radiotherapi yn Nevill Hall:

> *"Felly, yr her, wrth gwrs, i ni, yw sicrhau ein bod ni'n taro cydbwysedd rhwng buddsoddiad mewn gwasanaethau a chyfleusterau newydd a hefyd sicrhau bod y rheini sydd gyda ni, yn gyntaf, yn saff, ac yn ail, yn cyfrannu tuag at ganlyniadau positif o ran cleifion."*[34]

**84.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym fod cronfa yn bodoli'n benodol ar gyfer risgiau ansawdd a diogelwch, megis diogelwch tân, ond bod y pwyslais yn gyffredinol ar hyblygrwydd i fyrddau iechyd, gyda chyllid dewisol yn caniatáu iddynt fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol.

## Trawsnewid digidol

**85.** Defnyddir y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol (DPIF) i gyllido cyfleoedd trawsnewid digidol strategol yn GIG Cymru, a'r bwriad yw ategu'r gwaith o gyflawni newid gwasanaeth GIG Cymru. Mae papur yr Ysgrifennydd Cabinet yn nodi fel a ganlyn:

> *"Yn 2025-16, byddwn yn cynyddu'r buddsoddiad yn ein blaenoriaethau digidol £15m."*[35]

**86.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym:

> *"Beth rŷn ni wedi'i wneud yw cynyddu'n sylweddol y gronfa sydd ar gael ar gyfer prosiectau digidol—rŷn ni wedi dyblu hynny, ynghŷd â'r gronfa sydd eisoes yn mynd i DHCW ar gyfer prosiectau ar draws Cymru. Dŷn ni ddim lle dŷn ni angen bod o ran datblygiadau digidol, mae hynny'n amlwg, ac rwy'n fyr*

[34] Cofnod y Trafodion, 16 Ionawr 2025, paragraff 267
[35] Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 16 Ionawr 2025, Papur 1

*amynedd i ni allu mynd yn gyflymach ar rai o'r pethau yma. Beth fyddwn i'n dweud yw'r cyfraniad pwysicaf y gallwn ni ei wneud yn y misoedd nesaf fel rhan o'r flwyddyn sydd yn dod yw sicrhau bod y bensaernïaeth genedlaethol yn ei lle.”*[36]

## Ein barn ni

**87.** Rydym yn croesawu'r buddsoddiad cyfalaf cynyddol o £175 miliwn gan Lywodraeth Cymru yn y gyllideb ddrafft hon. Fodd bynnag, mae gennym bryderon ynghylch yr ôl-groniad presennol o waith cynnal a chadw ystadau. Er mwyn mynd i'r afael yn llawn ag anghenion buddsoddi mewn ystadau, seilwaith digidol, ac offer, mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi datgan y byddai angen tua £1 biliwn y flwyddyn dros y degawd nesaf. Fodd bynnag, disgwylir i gyfyngiadau economaidd wneud sicrhau cyllid cyfalaf digonol yn fwyfwy anodd. Mae hyn yn codi'r cwestiwn o ran sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cydbwyso'r heriau ariannol hyn, yn enwedig pan fo buddsoddiadau mewn diagnosteg a seilwaith digidol yn hanfodol ar gyfer trawsnewid gwasanaethau yn yr hirdymor a lleihau rhestrau aros y GIG.

**88.** At hynny, mae prosiectau fel ad-drefnu ysbytai ac offer newydd yn hanfodol ar gyfer gwella cynhyrchiant systemau, ac eto mae llawer o ysbytai yn parhau i weithredu gyda seilwaith sy'n heneiddio. O ystyried bod y gyllideb gyfalaf ar hyn o bryd yn annigonol i ddatrys yr holl faterion hyn, mae'n bwysig ystyried a ddylai'r llywodraeth flaenoriaethu buddsoddiad cyfalaf ychwanegol, gan ailgyfeirio cyllid o bosibl o brosiectau eraill yn 2025-26 pan fydd adnoddau ar gael.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu strategaeth glir ar gyfer mynd i'r afael â'r ôl-groniad mewn anghenion cynnal a chadw ystadau a buddsoddi cyfalaf, gan gynnwys sut y mae'n bwriadu cydbwyso'r cyfyngiadau ariannol â'r angen hollbwysig am fuddsoddiadau mewn seilwaith, diagnosteg, a gwasanaethau digidol. Dylai'r llywodraeth hefyd ystyried a oes angen ailddyrannu cyllid cyfalaf o feysydd eraill yng nghyllideb 2025-26 i fynd i'r afael â'r materion dybryd hyn a sicrhau cynhyrchiant gwell a thrawsnewid gwasanaethau yn yr hirdymor.

**89.** Mae digideiddio wedi'i nodi fel maes hollbwysig lle mae Cymru ar ei hôl hi, ac felly mae'n galonogol bod cyllid ar gyfer prosiectau digidol wedi'i ddyblu. Mae'r flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod, sy'n cynnwys sefydlu pensaernïaeth ddigidol genedlaethol ar gyfer integreiddio cyson ac effeithlon ar draws y system, hefyd yn gam cadarnhaol ymlaen. Fodd bynnag, mae angen i'r llywodraeth

[36] Cofnod y Trafodion, 16 Ionawr 2025, paragraff 269

weithredu'n gyflymach i fynd i'r afael â materion etifeddol presennol. Er ei fod yn cydnabod nad yw eto wedi cyrraedd y lefel ofynnol o soffistigedigrwydd digidol, mae'n hanfodol bod y llywodraeth yn cymryd camau pendant yn y maes hwn os yw'r system iechyd am wella. Rydym yn pryderu ynghylch y risgiau o orwario neu danberfformio ym maes trawsnewid digidol.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cynllun manwl ar gyfer cyflymu ei hymdrechion i gyrraedd y lefel ofynnol o soffistigedigrwydd digidol yn y system iechyd. Dylai amlinellu mesurau penodol i reoli risgiau sy'n ymwneud â gorwariant a thanberfformiad ym maes trawsnewid digidol, gan dynnu ar wersi a ddysgwyd o ymdrechion blaenorol. At hynny, dylai'r llywodraeth sicrhau goruchwyliaeth ac atebolrwydd cadarn yn ei mentrau digidol i warantu bod cynnydd yn cael ei wneud yn effeithlon ac yn effeithiol.

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro pryd y mae'n disgwyl i'r bensaernïaeth ddigidol genedlaethol gael ei sefydlu'n llawn, a'r amserlen ar gyfer gweld gwelliannau mesuradwy yn y gallu i ryngweithredu ar draws byrddau iechyd.

# 7. Gweithlu'r GIG

**90.** Costau'r gweithlu, gan gynnwys cyflogau a phensiynau, yw'r gyfran fwyaf o wariant iechyd. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, dyrannwyd £880 miliwn o gyllid y GIG i gefnogi cyfraniadau pensiwn a dyfarniadau cyflog y gweithlu.

**91.** Mae papur yr Ysgrifennydd Cabinet yn nodi, er gwaethaf y sefyllfa ariannol anodd, bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu'r gweithlu sydd ei angen ar y GIG i ateb y galw cynyddol.

## Lleoedd hyfforddi'r gweithlu

**92.** Mae papur yr Ysgrifennydd Cabinet yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gynyddu cyllid dros £20 miliwn ar gyfer hyfforddi gweithlu'r GIG, a fydd yn cynnwys cymorth parhaus i ehangu ysgol feddygol Gogledd Cymru a lleoedd hyfforddi meddygol a deintyddol ôl-raddedig ychwanegol.

**93.** Gwnaethom ofyn a fydd y cynnydd hwn mewn cyllid yn mynd i'r afael â'r diffyg o'r flwyddyn ariannol gyfredol, ac yn arwain at ehangu lleoedd hyfforddi mewn gwirionedd.

**94.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"I think the correlation between budget and the availability of places isn't a perfect correlation year on year, because there is quite a lot of scope for juggling the mix of provision that you commission within that envelope […] last year […] the funding was flat, but we in fact were able, in practice, to commission a higher number of nurse training places in 2024-25 than were actually filled the year before. So, we're committing to the same level of budget this year, but obviously the profile of what's commissioned within that may look different, and it may be higher or lower because it's basically demand led."*[37]

## Staff asiantaeth

**95.** Yn 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru raglen lleihau'r gweithlu asiantaethau, gyda'r nod o leihau gwariant ar asiantaethau yn GIG Cymru.

**96.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym fod gwariant ar asiantaethau yn 'un o'r meysydd hynny sy'n llwyddiant di-glod':

> *"If you look at the figures from 2022-23 on to this year, in very broad terms, you will see a halving of the agency bill. That isn't really given much airtime, but it's quite a significant success, I think. Clearly, there's much more to do, obviously there is, but there is a metric, there's a mechanism for doing it, we evaluate it and it's currently working."*[38]

## Ein barn ni

**97.** Rydym yn cydnabod ymateb yr Ysgrifennydd Cabinet fod hyfforddiant y gweithlu yn cael ei arwain gan alw, ond rydym yn teimlo bod cwestiynau'n parhau ynglŷn â sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod darpariaethau hyfforddi yn cyd-fynd â gofynion gweithlu'r dyfodol, yn enwedig mewn meysydd sy'n wynebu prinder dybryd.

**98.** Rydym yn croesawu'r gostyngiad mewn gwariant ar staff asiantaeth, ond rydym am fod yn glir ei bod yn hanfodol mynd i'r afael â materion sylfaenol sy'n cyfrannu at ddibyniaeth ar staff asiantaeth, ac mae hyn yn gofyn am fwy na dim ond lleihau nifer y staff asiantaeth a ddefnyddir. Mae angen strategaeth hirdymor i wella sefydlogrwydd y gweithlu a'r gallu i gadw'r gweithlu, gan sicrhau bod

[37] Cofnod y Trafodion, 16 Ionawr 2025, paragraff 291
[38] Cofnod y Trafodion, 16 Ionawr 2025, paragraff 294

ymdrechion yn arwain at welliannau cynaliadwy yn hytrach nag at atgyweiriadau dros dro.

**99.** Mae hefyd yn bwysig deall strategaeth ôl-lenwi Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau'r ddibyniaeth ar staff asiantaeth, gan sicrhau bod y rolau hyn yn cael eu llenwi gan weithwyr proffesiynol cymwys. Rhaid i'r strategaeth hon fod wedi'i chysylltu'n glir â'r gyllideb i sicrhau bod cyllid yn cefnogi sefydlogrwydd y gweithlu ac yn cyd-fynd ag amcanion ehangach ar gyfer hyfforddi, cadw, a mynd i'r afael â bylchau staffio hanfodol. Heb ddull cydlynol, mae perygl y bydd y GIG yn parhau i wynebu heriau o ran y gweithlu sy'n tanseilio darpariaeth gwasanaethau yn yr hirdymor a chynaliadwyedd ariannol.

# 8. Gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r gweithlu

## Pwysau ar wasanaethau gofal cymdeithasol

**100.** Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru yn ddiweddar ar godi'r tâl gofal cartref, ond mae wedi penderfynu cadw'r uchafswm tâl presennol ar £100 yr wythnos. Dywed y bydd £5 miliwn ychwanegol yn cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol i'w cefnogi (ar gyfer 2025-26 ac wedi hynny, wedi'i gynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw), ac y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i fynd i'r afael ag unrhyw anghysondebau yn y ffordd y caiff taliadau gofal cartref eu cymhwyso.

**101.** Mae'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)[39] yn rhybuddio bod cynghorau angen cyllid a chymorth polisi ychwanegol ar frys i fynd i'r afael â chostau a galw cynyddol ar wasanaethau cymdeithasol. Heb hyn, dywed y gallai cynghorau wynebu penderfyniadau cyllidebol anodd a allai niweidio ansawdd a hygyrchedd gwasanaethau.

**102.** Yn ôl ADSS a CLlLC, mae gofal cymdeithasol yn cyfrif am 45% (£106 miliwn) o'r pwysau ychwanegol cyffredinol a amcangyfrifir yn ystod y flwyddyn sy'n wynebu cynghorau eleni. Dywed fod y galw cynyddol a chymhlethdod yr angen ar draws gwasanaethau oedolion a phlant, gan gynnwys yr angen am leoliadau cost uchel, yn cyfrif am lawer o'r costau ychwanegol hyn. Wrth edrych ymlaen, dywed

[39] WGDB25-26(6)71: Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)

fod gorwariant rhagamcanol o £223 miliwn ar gyfer 2025-26, sy'n cynrychioli cynnydd o 9% yn y cyllidebau presennol.[40]

**103.** Pan ofynnwyd i'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol pa gamau yr oedd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r costau a'r galw cynyddol, dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi darparu cynnydd sylweddol i awdurdodau lleol eleni:

> *"They've seen an increase of some £253 million on their budget from 2024-25. But it is very much for them to determine how that is spent. But within that spend, of course they have to be cognisant of their legal requirements in social care, the policy requirements coming out of Welsh Government, and all their regulatory obligations."*[41]

## Y gweithlu gofal cymdeithasol

**104.** Yn ôl ADSS a CLlLC[42], mae sefydlogrwydd y gweithlu yn bryder mawr, gydag ofnau y bydd tanariannu parhaus yn gwaethygu prinder staff a digalondid. Maent hefyd yn nodi bod yr arolwg gweithlu gofal cymdeithasol diweddaraf (2024)[43] wedi canfod mai dim ond 35% o staff sy'n fodlon ar eu cyflog a bod 25% o staff yn anelu at adael y sector.

**105.** Dywedodd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol wrthym fod Llywodraeth Cymru yn darparu tua £32 miliwn i Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi prosesau recriwtio, cadw, ac i gefnogi gwelliannau yn y sector gofal cymdeithasol.

**106.** Tynnodd y Gweinidog sylw at yr her o ran casglu data gweithlu ar gyfer gofal cymdeithasol, lle mae 80 y cant o ddarparwyr gofal cymdeithasol yn y sectorau preifat ac annibynnol. Cadarnhaodd Albert Heaney, Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, y byddai'r data ar gyfer 2023 yn cael eu cyhoeddi ym mis Chwefror 2025, ac y byddent yn dangos symudiad o gyfradd swyddi gwag o 9 y cant yn 2022 i gyfradd swyddi gwag o 6 y cant, yn bennaf oherwydd gweithlu mwy.

[40] WGDB25-26(6)71: Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
[41] Cofnod y Trafodion, 16 Ionawr 2025, paragraff 174
[42] WGDB25-26(6)71: Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
[43] Dweud Eich Dweud 2024: Cynnydd mewn teimlad o werthfawrogiad, ond llesiant a thâl dal yn bryder i'r gweithlu gofal cymdeithasol, Hydref 2024

**107.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y fframwaith cyflog a dilyniant yn chwarae rhan bwysig o ran galluogi pobl i ddod i mewn i'r sector gofal cymdeithasol a gweld gofal cymdeithasol fel gyrfa.

**108.** Roedd yn bryderus ynghylch yr awgrym gan Fforwm Gofal Cymru[44] nad oedd y cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol wedi cyrraedd darparwyr mewn llawer o feysydd. Dywedodd fod adolygiad o'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ac y byddai'n ceisio sicrhau bod yr arian sy'n cael ei ddarparu i awdurdodau lleol yn cyrraedd y bobl y'i bwriadwyd ar eu cyfer.

**109.** Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai cyllid ar gyfer y fwrsariaeth gwaith cymdeithasol yn cael ei gadw.

## Ein barn ni

**110.** Rydym yn bryderus o glywed ADSS Cymru a CLlLC yn dweud, heb gyllid ychwanegol a chymorth polisi i fynd i'r afael â chostau a galw cynyddol ar wasanaethau cymdeithasol, y gallai ansawdd gwasanaethau a hygyrchedd ddioddef. Er bod Llywodraeth Cymru yn dweud ei bod yn parhau i flaenoriaethu cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol ochr yn ochr ag ariannu'r GIG, byddem yn croesawu sicrwydd bod hyn yn wir a bod gofal cymdeithasol wedi cael digon o bwysau ochr yn ochr â chyllid y GIG.

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor hwn yn nodi sut y mae wedi blaenoriaethu cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol o fewn y gyllideb ddrafft hon.

**111.** Mae'n anffodus na fu mwy o gynnydd o ran cyhoeddi data gwell ar swyddi gwag yn y gweithlu, yn enwedig ar ôl cael gwybod gan y Dirprwy Weinidog blaenorol mai 'yn ystod 2024 y nod yw sicrhau bod mwy o ddata ar gael'.

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am yr amserlenni ar gyfer cyhoeddi data am y gweithlu gofal cymdeithasol.

**112.** Mae parch cydradd rhwng y gweithlu gofal cymdeithasol a gweithlu'r GIG wedi bod yn thema sy'n codi dro ar ôl tro drwy gydol gwaith y Pwyllgor hwn. Felly, mae'n siomedig, o ystyried y prinder staff presennol a'r galw cynyddol am wasanaethau, gweld diffyg cynnydd diriaethol o ran mynd i'r afael â phrinder y gweithlu, gyda chymaint o staff yn ystyried gadael y proffesiwn. Rydym yn

[44] WGDB25-26(6)32: Fforwm Gofal Cymru

croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud i newid canfyddiadau o'r sector a hyrwyddo gofal cymdeithasol fel gyrfa gyda llwybrau dilyniant, ond credwn fod llawer mwy i'w wneud. Mae angen buddsoddiad parhaus sylweddol i wella cynaliadwyedd y gweithlu.

**113.** Yn adroddiad y llynedd ar y gyllideb, gwnaethom argymell y dylai'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol roi manylion inni am y gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i ddal gafael yn y nifer sylweddol o staff sy'n bwriadu gadael y sector gofal cymdeithasol erbyn diwedd y flwyddyn. Credwn fod angen i hwn fod yn argymhelliad treigl er mwyn ein galluogi i fonitro cynnydd yn y maes hwn.

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad blynyddol i'r Pwyllgor ar y gwaith sy'n cael ei wneud i recriwtio a chadw staff yn y sector gofal cymdeithasol. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am gynnydd o ran gwella mynediad at dâl salwch i weithwyr gofal cymdeithasol.

**114.** Rydym yn parhau i gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol ond yn teimlo nad yw hyn yn ddigon o hyd i ddenu a chadw staff. Rydym yn pryderu ynghylch awgrymiadau nad yw'r cyllid a ddarperir i awdurdodau lleol at y diben hwn yn cyrraedd llawer o ddarparwyr, ac rydym yn croesawu sicrwydd y Gweinidog y bydd yn ymchwilio i'r honiadau hyn.

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn gyda'i chanfyddiadau, unwaith y bydd yr adolygiad o'r Cyflog Byw Gwirioneddol wedi'i gwblhau.

# 9. Pwysau ar ddarparwyr annibynnol a'r trydydd sector

## Prosiectau i gefnogi gofalwyr di-dâl

**115.** Mae'r Gronfa Cymorth i Ofalwyr[45] wedi darparu cymorth i ofalwyr di-dâl i ymdopi â chostau byw cynyddol drwy ddarparu grantiau i brynu eitemau hanfodol sylfaenol, fel bwyd, eitemau i'r cartref ac eitemau electronig. Mae papur yr Ysgrifennydd Cabinet yn dweud bod tystiolaeth gref dros yr angen parhaus am y gronfa hon.

[45] £4.5 miliwn ar gyfer 2022-25

**116.** Yn yr un modd, mae'r Cynllun Seibiant Byr[46] yn darparu seibiant i ofalwyr di-dâl. Mae papur yr Ysgrifennydd Cabinet yn dweud "unwaith eto, mae hwn yn gynllun sy'n cael ei groesawu a'i ddarparu'n dda iawn, lle mae'r galw'n parhau i fynd y tu hwnt i'r cyflenwad".

**117.** Mae'r ddwy fenter lwyddiannus, a ariennir drwy'r Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol, yn wynebu dyfodol ansicr, heb unrhyw gadarnhad o gyllid parhaus yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26. Dywed Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru nad yw'r rhaglenni hyn yn bethau 'braf eu cael' ond eu bod yn bethau y mae'n 'rhaid eu cael' i gynnal gofalwyr di-dâl sy'n llenwi bylchau yn y system gofal cymdeithasol[47].

**118.** Mae'r galw am y ddwy raglen yn fwy na'r cyflenwad, a gallai eu terfynu effeithio'n ddifrifol ar allu gofalwyr i barhau â'u rolau. Yn ôl Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, pe na bai'r cyllid hwn yn parhau, byddai hyn gyfystyr â thua 7,000 o ofalwyr di-dâl yng Nghymru yn 2025-26 ddim yn cael grantiau bach a gwasanaethau i'w cefnogi, a gostyngiad tebygol yn argaeledd seibiannau mawr eu hangen ar gyfer gofal.[48]

**119.** Cydnabu'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol arwyddocâd y ddau gynllun ar ofalwyr di-dâl. Dywedodd:

> *"Although I can't give you an absolute today, what I am saying is that we are currently looking to extend those schemes, but I'll be making an announcement on that shortly, because we're still doing the workings out on that. But it is my intention that, if we can, we are extending those schemes, because of the benefits that they clearly deliver."*[49]

**120.** Ar 28 Ionawr, cyhoeddodd y Gweinidog barhad y cyllid ar gyfer y Gronfa Cymorth i Ofalwyr a'r Cynllun Seibiant Byr.[50]

---

[46] £9 miliwn ar gyfer 2022-25
[47] Ymddiriedolaeth y Gofalwyr yn galw am eglurder ynghylch cymorth i ofalwyr yn dilyn Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2024 (Saesneg yn unig)
[48] Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru
[49] Cofnod y Trafodion, 16 Ionawr 2025, paragraff 217
[50] Datganiad ysgrifenedig, *Cyllid i barhau ar gyfer y Cynllun Seibiant Byr a'r Gronfa Cymorth i Ofalwyr yn 2025/26*, Llywodraeth Cymru, 28 Ionawr 2025

## Newidiadau i gyfraniadau Yswiriant Gwladol

**121.** Fel rhan o Gyllideb yr Hydref 2024, bydd Llywodraeth y DU yn cynyddu cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr o 13.8% i 15% ac yn gostwng y trothwy atebolrwydd fesul cyflogai o £9,100 i £5,000, yn weithredol o 6 Ebrill 2025.

**122.** Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y bydd cyflogwyr yn y sector cyhoeddus yn cael eu digolledu am y costau hyn drwy gynnydd yng nghyllidebau terfynau gwariant adrannol, ond deallwn y bydd hyn yn eithrio gwasanaethau a gomisiynir yn gyhoeddus. Bydd llywodraethau datganoledig yn cael cyllid ychwanegol, ond nid yw hwn wedi'i ddyrannu eto ac mae'n annhebygol y bydd Llywodraeth Cymru yn gwybod faint y bydd yn ei gael tan fis Mai neu fis Mehefin. Felly mae wedi'i eithrio o gyllideb ddrafft 2025-26.

**123.** Mae darparwyr iechyd a gofal y sector annibynnol a'r trydydd sector yn bryderus iawn ynghylch sut y byddant yn talu'r costau ychwanegol, tra'n parhau i ddarparu gwasanaethau statudol a ariennir gan y sector cyhoeddus. Mae gohebiaeth a gawsom gan Gofal Canser Tenovus[51] yn amcangyfrif y gost iddynt fel lleiafswm o £250,000 y flwyddyn.

**124.** Rhybuddiodd Fforwm Gofal Cymru[52] y bydd y gostyngiad yn y trothwy Treth Etifeddiant ynghyd â newidiadau Yswiriant Gwladol yn cael effaith fawr, yn enwedig gan fod y rhan fwyaf o'r sector gofal yn cynnwys busnesau gofal bach sy'n cael eu rhedeg gan deuluoedd yng Nghymru. Maent yn rhybuddio, oni bai bod Llywodraeth y DU yn darparu eithriad ar gyfer gofal a gomisiynir yn gyhoeddus, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ddyrannu cyllid ychwanegol neu hirdymor i dalu am gost gwirioneddol gofal.

**125.** Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet a oedd Llywodraeth Cymru wedi asesu effaith y newidiadau Yswiriant Gwladol ar ddarparwyr gwasanaethau iechyd a gofal statudol yn y sector annibynnol a'r trydydd sector, ac a oedd unrhyw gynlluniau ar gyfer cymorth pellach i'r rhai sy'n darparu'r gwasanaethau hynny i helpu i dalu'r costau ychwanegol hyn. Holwyd hefyd ynghylch cynaliadwyedd ariannol hosbisau.

**126.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei fod yn cyfarfod â'r sector i ddeall goblygiadau'r newidiadau yn well ond, o safbwynt Llywodraeth Cymru, nid oedd

[51] Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 16 Ionawr 2025, Papur i'w Nodi 7
[52] WGDB25-26(6)32: Fforwm Gofal Cymru

mewn sefyllfa, o ran y gyllideb, i wneud iawn am bopeth y mae'r pwysau ychwanegol yn effeithio arno.

**127.** Mewn perthynas â hosbisau, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod £13 miliwn o gyllid rheolaidd wedi'i ddarparu i hosbisau. At hynny, dywedodd:

> *"Fe wnaethon ni weld y llynedd pwysau costau byw yn cynyddu'n sylweddol, felly fe wnaethon ni ddarparu tâl o ryw £4 miliwn o fewn y flwyddyn, ac rŷn ni wedi gwneud taliadau o'r math hwnnw o bryd i'w gilydd i ddelio gyda chostau anorfod—nid national insurance, ond jest costau darparu'n gyffredinol. "*[53]

**128.** Dywedodd y byddai cyllidebau yn y dyfodol yn symud oddi wrth ddarparu taliadau untro yn ystod y flwyddyn. Roedd cyllid ar gyfer hosbisau wedi'i gynyddu o £13 miliwn i £16 miliwn, a fyddai'n darparu'r llinell sylfaen ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Dywedodd hefyd fod gwaith ar y gweill i edrych ar system newydd o gomisiynu hosbisau i sicrhau eu bod yn cael eu gosod ar sail fwy cadarn.

## Ein barn ni

**129.** Fel Pwyllgor, rydym wedi cydnabod yn gyson y rôl hanfodol a chwaraeir gan ofalwyr di-dâl o ran cynorthwyo ffrindiau ac aelodau o'r teulu. Hebddynt, byddai gwasanaethau iechyd a gofal yn cael eu llethu. Gan hynny, mae mor bwysig bod gofalwyr eu hunain yn cael yr help a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i'w galluogi i barhau i ofalu am eraill. Rydym yn croesawu cyhoeddiad y Gweinidog ar 28 Ionawr ynghylch parhad y cyllid ar gyfer y Gronfa Cymorth i Ofalwyr a'r Cynllun Seibiant Byr. Mae'n siomedig na chafodd hyn ei ddatrys yn gynharach, o ystyried llwyddiant amlwg y cynlluniau. Fel mae tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid yn ei amlygu,[54] [55] [56] mae ansicrwydd o ran cyllid mor hwyr â hyn yn y tymor ariannol yn achosi anawsterau i brosiectau. Gobeithiwn y gellir osgoi ansicrwydd o'r fath yn y dyfodol.

**130.** Credwn fod achos dros fwy o fuddsoddiad cynaliadwy mewn gofal seibiant, o ystyried cyfaddefiad Llywodraeth Cymru bod y galw yn fwy na'r cyflenwad ar gyfer y Cynllun Seibiant Byr, a'r ffaith bod adolygiad cyflym ADSS ar hawliau

[53] Cofnod y Trafodion, 16 Ionawr 2025, paragraff 234
[54] WGDB25-26(6)42: Age Cymru (Saesneg yn unig)
[55] WGDB25-26(6)66: Y Gymdeithas Strôc (Saesneg yn unig)
[56] Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru (Saesneg yn unig)

gofalwyr di-dâl[57] wedi canfod mai gofal seibiant yw'r angen mwyaf arwyddocaol nas diwallwyd a nodwyd gan ofalwyr.

**131.** Rydym yn hynod bryderus ynghylch y newidiadau arfaethedig i gyfraniadau Yswiriant Gwladol mewn perthynas â gallu darparwyr iechyd a gofal y sector annibynnol a'r trydydd sector i barhau i ddarparu gwasanaethau, a'r pwysau canlyniadol a fydd yn ei roi ar y GIG. Fel y nododd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol yn ystod ein sesiwn graffu, mae 80 y cant o ddarparwyr gofal cymdeithasol yn y sectorau preifat ac annibynnol. Rydym yn rhannu pryderon Fforwm Gofal Cymru bod perygl gwirioneddol o ansefydlogrwydd pellach yn y sector gofal cymdeithasol heb gymorth ychwanegol.

**132.** Rydym yn bryderus fod hosbisau yn gynyddol ddibynnol ar godi arian a rhoddion elusennol i ddarparu gofal hanfodol a gwasanaethau craidd. Credwn y dylai fod cyllid cynaliadwy a gwell cydnabyddiaeth o'r gwasanaethau iechyd a gofal hollbwysig y maent yn eu darparu.

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu mwy o gyllid cynaliadwy ar gyfer gofal seibiant, o ystyried y galw a lefel yr angen nas diwallwyd a nodwyd gan ofalwyr.

**Argymhelliad 20.** Dylai Lywodraeth Cymru fynd ati, fel mater o frys i:

- nodi ei asesiad o effaith y newidiadau arfaethedig i gyfraniadau Yswiriant Gwladol ar y rhai sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal a gomisiynir yn gyhoeddus, a'r effaith ddilynol y bydd hyn yn ei chael ar ein sectorau iechyd a gofal cymdeithasol;
- darparu rhagor o wybodaeth am sut y mae'n bwriadu cefnogi'r darparwyr hynny.

[57] Adroddiad y gweithlu gofal cymdeithasol, 2022